Beibl i Blant

yn cyflwyno

Y Ffermwr a'r Hadau



Awdur: Edward Hughes

Lluniau gan: M. Maillot; Lazarus

addaswyd gan: E. Frischbutter; Sarah S.

Cyfieithydd: Catrin Roberts

Alastair Paterson

Cynhyrchwyd gan: Bible for Children
www.M1914.org

©2020 Bible for Children, Inc.
Trwydded: mae gennych hawl i gopïo neu argraffu'r stori hon,
ar yr amod nad ydych yn ei gwerthu.

Un diwrnod roedd Iesu'n dysgu ar lan y llyn. Daeth llawer o bobl ato i wrando.

Doedd dim digon o le i bawb. Beth oedd Iesu am ei wneud?

Roedd cwch gerllaw, a dringodd Iesu i'r cwch. Nawr roedd e'n gallu gweld y bobl, a gallai'r bobl ei weld a'i glywed e.

Dechreuodd Iesu ddweud
damhegion – storïau am bethau
bob dydd sy'n dysgu
pobl am Dduw.

"Aeth ffermwr allan i hau". Roedd stori Iesu fel darlun wedi ei greu o eiriau ac nid lluniau.

Gallai'r bobl ddychmygu'r ffermwr yn gweithio. Roedden nhw wedi gweld hyn yn digwydd yn aml.

Dyma beth o'r hadau yn syrthio ar lwybr. Swish! Dyma'r adar yn hedfan lawr i'w fwyta'n farus.

Syrthiodd peth o'r hadau ar dir creigiog, a thyfu'n gyflym yn blanhigion tenau, tila. Daeth yr haul poeth a gwneud iddyn nhw grino achos bod nhw'n methu bwrw gwreiddiau i'r haen denau o bridd.

Syrthiodd peth o'r hadau i ganol drain. Wnaethon nhw ddim cynhyrchu grawn. Tyfodd y drain o amgylch y planhigion ifanc fel bod yr haul a'r glaw yn methu cyrraedd atyn nhw.



Syrthiodd gweddill yr hadau ar dir da. Mewn amser, tyfodd y planhigion yn gryf a chynhyrchu grawn. Mae'n siŵr fod y ffermwr yn hapus iawn.

Ar ddiwedd y stori, daeth y disgyblion at Iesu a gofyn “Pam wyt ti’n dysgu trwy ddamhegion?”



Dywedodd Iesu fod damhegion yn helpu pobl sy'n caru Duw i ddysgu amdano. Dyw pobl sydd ddim yn caru Duw ddim yn gallu deall damhegion.

Esboniodd Iesu'r ddameg.
Dywedodd mai Gair Duw ydy'r hadau.
Mae'r hadau ar y llwybr yn debyg i
berson sy'n clywed,
ond sydd ddim yn deall Gair Duw.

Mae Satan yn gwneud
iddyn nhw anghofio geiriau
Duw wrthyn nhw.

Mae rhai pobl yn croesawu Gair Duw yn frwd. Maen nhw'n debyg i'r hadau ar y tir creigiog. Ond pan mae rhywun yn gwneud hwyl am eu pennau, neu'n gwneud bywyd yn anodd iddyn nhw achos bod nhw'n caru Duw, mae rhywbeth trist yn digwydd.

Mae'r bobl ddechreuodd ddilyn Iesu yn frwd yn troi i ffwrdd, ac yn stopio ufuddhau i Dduw. Dydyn nhw ddim yn barod i wynebu'r gost o wrando ar Dduw. Maen nhw am blesio eu ffrindiau ac nid Duw – dyna drist!

Mae'r drain yn y ddameg fel problemau bywyd, a'r cariad sydd gan rai tuag at arian. Mae rhain mor brysur yn ennill mwy o bres a gwneud pethau eraill, maen nhw'n gadael Duw allan o'u bywyd.

Ond mae'r hadau sy'n syrthio ar dir da, ac yn cynhyrchu cynhaeaf da yn ddarlun o'r bobl sy'n gadael i Air Duw ddod i'w bywyd a'u newid. Mae'r bobl hyn yn gwasanaethu ac yn anrhydeddu Duw.

Doedd y disgyblion ddim am adael. Roedd llawer ohonyn nhw am ddilyn Duw a'i blesio. Roedd damhegion Iesu yn helpu nhw i ddeall sut i ufuddhau i Dduw.

Y Ffermwr a'r Hadau

Stori o Air Duw, y Beibl

sydd i'w gweld yn

Mathew 13

"Pan ddatguddir dy air, bydd yn goleuo."
Salm 119:130

Y Diwedd

Mae'r stori hon o'r Beibl yn dysgu ni am ein Duw rhyfeddol. Fe wnaeth ein creu ni, ac mae eisiau i ni ei adnabod.

Mae Duw yn gwybod bod ni wedi gwneud pethau drwg, beth mae e'n galw'n bechod. Cosb pechod ydy marwolaeth, ond mae Duw yn dy garu di gymaint nes ei fod wedi anfon ei unig Fab, Iesu, i farw ar Groes, a chymryd y gosb am dy bechod di. Yna daeth Iesu'n ôl yn fyw a mynd adref i'r Nefoedd! Os wyt ti'n credu yn Iesu ac yn gofyn iddo faddau dy bechodau, mae'n barod i wneud hynny! Bydd yn dod i fyw ynot ti nawr, ac fe gei di fyw gydag E am byth.

Os wyt ti'n credu bod hyn yn wir, beth am ddweud hyn wrth Dduw: Annwyl Iesu, rwy'n credu i ti ddod yn ddyn i farw dros fy mhechodau, a dy fod ti'n fyw eto. Os gweli'n dda, tyrd i mewn i'm bywyd. Maddau fy mhechodau i mi gael bywyd newydd nawr, ac yna un diwrnod bod hefo ti am byth. Helpa fi i fod yn ufudd i ti, a byw fel plentyn i ti. Amen.

Darllena'r Beibl, a siarad gyda Duw bob diwrnod! Ioan 3:16